**RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR PENODIADAU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd Dydd Llun, 30 Medi 2019 am 10.00 am ym Ystafell Bwyllgora 1, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Penodiadau Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd Owen-Jones Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd M Weaver Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

**7 YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Diamond ac A. Morgan.

**8 CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor Penodiadau.

**9 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**10 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 19eg Chwefror 2019 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

**11 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

**12 TRAFOD CYD-ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR A'R CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL, SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG.**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Yn dilyn cyhoeddi dyddiad ymddeol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant, cafodd yr Aelodau wybod fod y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wedi cynnal adolygiad i weld a fydd

galw am swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant ar gyfer y dyfodol. Daethon nhw i'r casgliad fod angen disodli'r swydd gan ei bod yn cael ei hystyried yn rôl allweddol.

Cafodd yr Aelodau wybod am y ffordd ymlaen a awgrymwyd ac roedd gofyn iddyn nhw gytuno ar yr argymhellion a nodwyd ym mhwyntiau 2.1 a 2.2 yr adroddiad.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sylw at y ffaith bod nifer o Benaethiaid Gwasanaeth sydd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau datblygu sgiliau rheoli yn rhan o strategaeth ddatblygu gweithlu'r Cyngor, ac efallai y byddai modd i un ohonyn nhw gyflawni swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant.

Gan fod y swydd yn rôl allweddol yn y Cyngor, roedd yr Aelodau o'r farn nad oedden nhw am eithrio ymgeiswyr allanol rhag ymgeisio, a gofynnon nhw a oes modd hysbysebu'r swydd yn allanol.

Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y gellid hysbysebu'r swydd yn allanol a byddai staff mewnol hefyd yn cael cyfle i wneud cais.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

(1) y byddai swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant yn cael ei hysbysebu'n allanol.
(2) byddai diweddariad mewn perthynas â cheisiadau a dderbynnir yn cael ei ddarparu i'r Aelodau yn dilyn y broses ymgeisio.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 10.17 am**

**Y CYNGHORYDD D OWEN-JONES**
**Cadeirydd.**